# CYNGOR CAERDYDD

# COFRESTR O BENDERFYNIADAU CABINET Dydd Iau, 18 Ebrill 2019

| Rhif y Penderfyniad | Rhif y Cofnod | Penderfyniad a Wnaethpwyd | Rheswm | Ymgynghoriad a Gynhaliwyd | Dyddiadau | | | Cyfrifoldeb am weithredu ar ôl dyddiad a ddangosir |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | Penderfyniad a Wnaethpwyd | Dyddiad Cyhoeddi | Dyddiad Cau ar gyfer Galw i Mewn | |
| | Cofnod rhif 76 | **Cofnodion Cyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 21 Mawrth 2019**<br><br>Cymeradwywyd | | | | | | |
| CAB/18-19/ 76 | Cofnod rhif 108 | **Astudiaeth o'r Ecosystem Gerdd**<br><br>**PENDERFYNWYD:**<br><br>1. nodi cynnwys Adroddiad Strategaeth Gerdd Sound Diplomacy: Astudiaeth o'r Ecosystem Gerdd ac Argymhellion Strategol (Atodiad 1 wedi'i amgáu)<br><br>2. dod ag adroddiad i'r Cabinet yn y dyfodol er mwyn<br><br>i. Rhoi ymateb manwl i'r Astudiaeth o'r Ecosystem Gerdd a'r Argymhellion Strategol (wedi'i amgáu ar ffurf Atodiad 1 i'r adroddiad). | Galluogi'r Cabinet i symud ymlaen gyda chynigion i wneud Caerdydd yn Ddinas Gerdd. | Ystyriodd y Pwyllgor Economi a Diwylliant yr eitem hon ar 9 Ebrill 2019. Nodir eu sylwadau yn y llythyr gan y Cadeirydd sydd wedi'i amgáu ar ffurf Atodiad 2. | 18 Ebrill 2019 | 18 Ebrill 2019 | 1 Mai 2019 | Neil Hanratty |

# CYNGOR CAERDYDD

## COFRESTR O BENDERFYNIADAU CABINET  Dydd Iau, 18 Ebrill 2019

| Rhif y Penderfyniad | Rhif y Cofnod | Penderfyniad a Wnaethpwyd | Rheswm | Ymgynghoriad a Gynhaliwyd | Dyddiadau | | | Cyfrifoldeb am weithredu ar ôl dyddiad a ddangosir |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | Penderfyniad a Wnaethpwyd | Dyddiad Cyhoeddi | Dyddiad Cau ar gyfer Galw i Mewn | |
| | | ii. Sefydlu Bwrdd Cerdd, gan ystyried argymhellion Adroddiad Strategaeth Gerdd Sound Diplomacy (wedi'i amgáu ar ffurf Atodiad 1) a chynnwys manylion y trefniadau llywodraethu a Chylch Gorchwyl y Bwrdd. | | | | | | |
| CAB/18-19/ 77 | Cofnod Rhif 110 | **Caeau'r Canmlwyddiant**<br><br>**PENDERFYNWYD:** awdurdodi'r Cyfarwyddwr Llywodraethu a Gwasanaethau Cyfreithiol, mewn ymgynghoriad â swyddogion gwasanaethau priodol eraill a Fields in Trust, i gwblhau'r gwaith o enwi'r safleoedd a nodir yn yr adroddiad hwn yn Caeau'r Canmlwyddiant. | Ar y sail na chafwyd unrhyw wrthwynebiadau i'r cynigion, gofynnir i'r Cabinet roi awdurdod i'r Swyddogion perthnasol gwblhau'r gwaith o enwi'r safleoedd a nodir yn yr adroddiad hwn yn Caeau'r Canmlwyddiant. | Ymgynghorwyd ag Aelodau'r Ward Lleol ar y cynigion ac maent yn gefnogol o'r gwaith. | 18 Ebrill 2019 | 18 Ebrill 2019 | 1 Mai 2019 | Neil Hanratty |

# CYNGOR CAERDYDD

## COFRESTR O BENDERFYNIADAU CABINET  Dydd Iau, 18 Ebrill 2019

| Rhif y Penderfyniad | Rhif y Cofnod | Penderfyniad a Wnaethpwyd | Rheswm | Ymgynghoriad a Gynhaliwyd | Dyddiadau | | | Cyfrifoldeb am weithredu ar ôl dyddiad a ddangosir |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | Penderfyniad a Wnaethpwyd | Dyddiad Cyhoeddi | Dyddiad Cau ar gyfer Galw i Mewn | |
| | | | | | | | | |
| CAB/18-19/ 78 | Cofnod rhif 110 | **Darpariaeth ysgol newydd i wasanaethu ardaloedd Creigiau/Sain Ffagan Radur/ Pentre-poeth a'r Tyllgoed**<br><br>**PENDERFYNWYD:** awdurdodi swyddogion i ymgynghori ar gynnig i sefydlu ysgol gynradd newydd dwy ffrwd â dau ddosbarth mynediad wedi'i threfnu'n un dosbarth mynediad cyfrwng Cymraeg ac un dosbarth mynediad cyfrwng Saesneg yn bennaf, ond â defnydd sylweddol o'r Gymraeg, a bydd gan y ddwy ffrwd 48 o leoedd meithrin rhan-amser o fis Medi 2021. | Ymateb i'r galw a ragamcenir am leoedd ychwanegol mewn ysgolion cynradd ac uwchradd cyfrwng Cymraeg i wasanaethu'r datblygiadau tai newydd yn ardaloedd Creigiau/ Sain Ffagan, Radur/ Pentre-poeth a'r Tyllgoed. | Ymgynghorwyd ag Aelodau Lleol ar gyfer Creigiau a Sain Ffagan, Radur a Phentre-poeth a'r Tyllgoed ar y cynnig. Mae aelodau wedi cael eu briffio ar yr angen am leoedd ychwanegol i wasanaethu datblygiad Plasdŵr, y gwaith o alinio'r cynnig â Strategaeth Ddwyieithog y Cyngor a strategaeth Cymraeg 2050 Llywodraeth Cymru, a'r effaith bosibl y bydd darpariaeth | 18 Ebrill 2019 | 18 Ebrill 2019 | 1 Mai 2019 | Nick Batchelar |

# CYNGOR CAERDYDD

## COFRESTR O BENDERFYNIADAU CABINET Dydd Iau, 18 Ebrill 2019

| Rhif y Penderfyniad | Rhif y Cofnod | Penderfyniad a Wnaethpwyd | Rheswm | Ymgynghoriad a Gynhaliwyd | Dyddiadau | | | Cyfrifoldeb am weithredu ar ôl dyddiad a ddangosir |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | Penderfyniad a Wnaethpwyd | Dyddiad Cyhoeddi | Dyddiad Cau ar gyfer Galw i Mewn | |
| | | | | ysgol newydd yn ei chael ar ysgolion lleol. | | | | |
| CAB/18-19/ 79 | Cofnod rhif 111 | **Ymateb i adroddiad Pwyllgor Craffu Plant a Phobl Ifanc a Chymunedau ac Oedolion, o'r enw Atal Pobl Ifanc rhag Ymwneud â Delio Cyffuriau.**<br><br>**PENDERFYNWYD:** Cytuno ar yr ymateb i adroddiad y Pwyllgor Craffu o'r enw Atal Pobl Ifanc rhag Ymwneud â Delio Cyffuriau. | Galluogi'r Cabinet i ymateb i'r adroddiad Craffu. | | 18 Ebrill 2019 | 18 Ebrill 2019 | 1 Mai 2019 | Sarah McGill |
| CAB/18-19/ 80 | Cofnod rhif 112 | **Ymateb i Adroddiad Pwyllgor Craffu'r Economi a Diwylliant o'r enw 'Gweithdai'r Cyngor a Safleoedd Arloesi'**<br><br>**PENDERFYNWYD:** cytuno ar yr ymateb i adroddiad Pwyllgor Craffu'r Economi a Diwylliant o'r enw | Galluogi'r Cabinet i ymateb i'r adroddiad a gyhoeddwyd gan Bwyllgor Craffu'r Economi a Diwylliant ym mis Tachwedd 2018 o'r enw 'Gweithdai'r Cyngor a Safleoedd Arloesi'. | | 18 Ebrill 2019 | 18 Ebrill 2019 | 1 Mai 2019 | Neil Hanratty |

# CYNGOR CAERDYDD

# COFRESTR O BENDERFYNIADAU CABINET Dydd Iau, 18 Ebrill 2019

| **Rhif y Penderfyniad** | **Rhif y Cofnod** | **Penderfyniad a Wnaethpwyd** | **Rheswm** | **Ymgynghoriad a Gynhaliwyd** | Dyddiadau | | | **Cyfrifoldeb am weithredu ar ôl dyddiad a ddangosir** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | **Penderfyniad a Wnaethpwyd** | **Dyddiad Cyhoeddi** | **Dyddiad Cau ar gyfer Galw i Mewn** | |
| | | 'Gweithdai'r Cyngor a Safleoedd Arloesi (Atodiad A i'r adroddiad). | | | | | | |
| CAB/18-19/ 81 | Cofnod rhif 113 | **Strategaeth Economaidd**<br><br>**PENDERFYNWYD:** cymeradwyo'r Strategaeth Economaidd. | Er mwyn cymeradwyo'r Strategaeth Economaidd. | Ystyriodd Pwyllgor Craffu'r Economi a Diwylliant yr eitem hon ar 9 Ebrill 2019. Caiff eu sylwadau eu nodi yn y llythyr gan y Cadeirydd sydd wedi'i amgáu yn Atodiad 5. | 18 Ebrill 2019 | 18 Ebrill 2019 | 1 Mai 2019 | Neil Hanratty |
| **Wedi'i baratoi gan swyddfa'r Cabinet:** | | | | | **18 Ebrill 2019** | | | |
| **Wedi'i gyflwyno i'r Prif Weithredwr ar gyfer Llofnod** | | | | | **18 Ebrill 2019** | | | |

Cymeradwywyd ar gyfer Cyhoeddi: *Paul Orders*
Prif Weithredwr

Dyddiad: 18 Ebrill 2019